Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar ddarpariaeth dysgu yn y gwaith

## Academi Sgiliau Cymru yng Ngrŵp Colegau NPTC

**Heol Dŵr-y-felin**
**Castell-nedd**
**Castell-nedd Port Talbot**
**SA10 7RF**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Academi Sgiliau Cymru yng Ngrŵp Colegau NPTC

Sefydlwyd Academi Sgiliau Cymru fel partneriaeth dysgu yn y gwaith yn 2009. Dan arweiniad Grŵp Colegau NPTC, bu'r bartneriaeth yn gweithredu dan un contract Llywodraeth Cymru i gyflwyno rhaglenni prentisiaeth er mis Awst 2010. Caiff pump o ddarparwyr sy'n isgontractwyr eu hystyried yn bartneriaid sefydlu Academi Sgiliau Cymru ac mae'r rhain yn chwarae rôl arweiniol ar y cyd, ochr yn ochr â Grŵp Colegau NPTC, mewn arweinyddiaeth strategol a gweithredol y bartneriaeth. Mae Academi Sgiliau Cymru hefyd yn is-gontractio cyflwyno darpariaeth prentisiaethau i naw o isgontractwyr ychwanegol.

Y partneriaid sefydlu yw: ACO Training Ltd; Coleg y Cymoedd; Gwendraeth Valley Community Enterprise Ltd sy'n masnachu fel Gweithlu Cymru; ITeC Digital Training Ltd; Cyngor Gwledig Llanelli (LRC Training); a Grŵp Colegau NPTC.

Y naw is-gontractwr ychwanegol yw: Care Credentials Wales Ltd sy'n masnachu fel Pengwin; Fashion-Enter Ltd; Marr Corporation Ltd; Myrick Training Services Ltd; Cyngor Castell-nedd Port Talbot (Sgiliau a Hyfforddiant); Protech Training Academy Ltd; Sirius Skills Consulting Ltd; Tooth Fairies Ltd; a Gwasanaeth Ambiwlans Cymru.

Mae Academi Sgiliau Cymru yn darparu ar gyfer tua 2,800 o raglenni prentisiaeth a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r bartneriaeth yn gweithredu ar draws de-ddwyrain, de-orllewin a chanolbarth Cymru ac mae ganddi ddarpariaeth fechan yng ngogledd Cymru. Mae'n cyflwyno rhaglenni hyfforddiant o lefel 2 i lefel 5 ar draws y meysydd canlynol:

- Amaethyddiaeth, Garddwriaeth a Pheirianneg Tir
- Cyfryngau Cymdeithasol a Marchnata Digidol, Theatr Dechnegol
- Cyfrifeg, Gweinyddu Busnes, Gwasanaeth Cwsmeriaid, Rheoli Adnoddau Dynol, Arwain a Rheoli Tîm
- Adeiladu, Cynllunio a'r Amgylchedd Adeiledig
- Peirianneg a Thechnolegau Gweithgynhyrchu
- Trin Gwallt a Barbro
- Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal
- Cynhyrchu Bwyd, Lletygarwch, Coginio Proffesiynol
- Defnyddiwr TGCh, Gweithiwr Proffesiynol TGCh ac Arbenigwr Cymwyseddau TG
- Rheoli Hamdden, Chwaraeon, Rhagoriaeth Chwaraeon a Datblygu Chwaraeon
- Rheoli Glanhau a Chyfleusterau, Gyrru Cerbydau Nwydau, Manwerthu a Gwaith Warws

## Crynodeb

Mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr Academi Sgiliau Cymru yn dangos arfer gref yn y gweithle ac yn cymhwyso cysyniadau damcaniaethol o’u dysgu i gyd-destunau eu gweithleoedd yn effeithiol. Mae llawer ohonynt yn ymgymryd â gwaith ymarferol o safon briodol ac mae ychydig ohonynt yn dangos lefel uwch o gymhwysedd. At ei gilydd, gwna llawer ohonynt gynnydd sydd o leiaf yn briodol tuag at gwblhau eu fframweithiau prentisiaeth. Mae cyfran y prentisiaid sy’n cwblhau eu fframweithiau iechyd a gofal cymdeithasol yn llwyddiannus yn gwella. Fodd bynnag, mae nifer y dysgwyr hyn sy’n cwblhau’n hwyr yn uchel o hyd; mae hyn yn adlewyrchu’r heriau a wynebwyd yn ddiweddar gan y sectorau hyn yn genedlaethol.

Mae dysgwyr yn frwdfrydig ynghylch eu prentisiaethau ac wedi’u cymell i ddatblygu eu medrau a’u gwybodaeth. Caiff dysgwyr eu gwerthfawrogi gan eu cyflogwyr ac maent yn cyfrannu’n dda at eu sefydliadau. Mae llawer o ddysgwyr yn deall y llwybrau gyrfa sydd ar agor iddynt ac yn ymwybodol o sut i symud ymlaen i’r lefel nesaf o hyfforddiant prentisiaeth.

Mae’r bartneriaeth, wedi’i chydlynu gan y Grŵp Ymarferwyr Iechyd, Diogelwch a Lles, yn manteisio’n dda ar arbenigedd partneriaid mewnol ac isgontractwyr, yn ogystal ag asiantaethau allanol arbenigol, i ddarparu gofal, cymorth ac arweiniad da iawn i ddysgwyr. Mae’r berthynas waith rhwng dysgwyr, aseswyr a chyflogwyr yn adeiladol iawn, yn gyffredinol. Mae dysgwyr yn gyfforddus yn troi at eu haseswyr am gymorth â’u datblygiad a lles. Mae dysgwyr yn barchus tuag at ei gilydd; maent yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi cymorth eu cymheiriaid prentisiaeth ac yn gwerthfawrogi cyfleoedd i rannu eu profiadau â nhw. At ei gilydd, nid yw dealltwriaeth dysgwyr o beryglon radicaleiddio ac eithafiaeth wedi’i datblygu’n ddigonol.

Mae aseswyr yn cydweithio’n dda â chyflogwyr i sefydlu a chynnal ethos cynhyrchiol sy’n annog cynnydd a dyheadau gyrfa dysgwyr. Mae gan y rhan fwyaf o diwtoriaid ac aseswyr brofiad gwerthfawr o sectorau diwydiant ac maent yn manteisio arno’n dda i gynorthwyo eu dysgwyr yn frwdfrydig i gaffael gwybodaeth a datblygu medrau’r gweithle. Mae aseswyr a thiwtoriaid yn addasu eu dulliau’n ddefnyddiol i gefnogi anghenion dysgu gwahanol dysgwyr a’i harddulliau dysgu dewisol. Maent yn cydweithio â dysgwyr i osod targedau cynnydd a therfynau amser addas. Mae llawer o diwtoriaid ac aseswyr yn holi dysgwyr yn effeithiol ac mae ychydig ohonynt yn gwneud hyn yn arbennig o fedrus. Mae hyn yn helpu i feithrin a datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o sesiynau, mae aseswyr yn siarad yn rhy hir ac nid ydynt yn manteisio i’r eithaf ar gyfleoedd i gael mewnbwn gan ddysgwyr. At ei gilydd, nid yw darpariaeth ar gyfer dysgu ac asesu trwy gyfrwng y Gymraeg wedi’i datblygu’n ddigonol.

Bu uwch arweinwyr yn ofalus i gadw manteision a natur gyfunol y bartneriaeth ers ei ffurfio. Mae gan bartneriaid rolau arweinyddiaeth strategol a gweithredol cyffredinol pwysig. Mae partneriaid gwahanol hefyd yn gyfrifol am gyd-reoli isgontractwyr penodol ar ran y bartneriaeth. Mae uwch arweinwyr yn adolygu ansawdd darpariaeth a pherfformiad y darparwyr partner ac isgontractwyr yn deg. Maent yn cymryd camau pendant ar y cyd, yn ôl y gofyn, i fynd i’r afael ag unrhyw faterion. Mewn ychydig o achosion, nid yw meysydd i’w datblygu a thargedau gwella’r bartneriaeth yn ddigon clir.

Mae'r bartneriaeth yn ymatebol i newidiadau i anghenion y farchnad lafur ac yn ymgysylltu'n rhagweithiol â sefydliadu sy'n cynllunio buddsoddiadau a datblygiadau rhanbarthol, er mwyn sicrhau bod gweithlu medrus ar gael i'w cefnogi. Ynghyd â sylw cyson y bartneriaeth i anghenion hyfforddiant busnesau llai, mae'r ymatebolrwydd hyn yn helpu i liniaru rhywfaint o'r pwysau ar y gweithlu sy'n cael eu hwynebu'n rhanbarthol ac yn genedlaethol.

## Argymhellion

A1 Parhau i wella'r cyfraddau mae dysgwyr yn cyflawni eu prentisiaethau arnynt a lleihau nifer y rhai sy'n eu cwblhau'n hwyr

A2 Sicrhau bod aelodau staff yn datblygu dealltwriaeth pob dysgwr o beryglon radicaleiddio ac eithafiaeth

A3 Sicrhau bod darpariaeth ar waith i ddatblygu medrau Cymraeg dysgwyr yn ystyrlon ar sail eu mannau cychwyn unigol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y darparwr yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd y darparwr i baratoi astudiaeth achos ar ei waith yn ymwneud â rhagfynegi datblygiadau'r farchnad lafur ac ymgysylltiad cynnar rhagweithiol i fodloni anghenion gweithlu prosiectau rhanbarthol, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gweithio'n dda wrth gwblhau tasgau'n unigol ac mewn grwpiau. Mae llawer o ddysgwyr yn ymwybodol o'r cynnydd maent yn ei wneud a pha asesiadau a thasgau y mae angen iddynt eu cwblhau. Mae'r dysgwyr hyn yn defnyddio'r system olrhain electronig yn gymwys i lanlwytho tasgau ysgrifenedig, adolygu gwaith sydd wedi'i farcio a monitro eu cynnydd yn rheolaidd.

Mae mwyafrif y dysgwyr yn dangos eu bod yn gallu galw dysgu blaenorol i gof yn briodol a siarad yn hyderus am eu profiadau yn y gweithle. Maent yn defnyddio ac yn cymhwyso dysgu'n effeithiol yn eu rolau gwaith wrth ryngweithio â'u cyflogwyr, cleientiaid a chwsmeriaid. Er enghraifft, mae dysgwyr nyrsio deintyddol yn rhoi cyngor clir a chywir i gleientiaid am ofal a hylendid deintyddol.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cymhwyso cysyniadau damcaniaethol i'w rolau gwaith yn llwyddiannus. Maent yn huawdl ac yn gallu esbonio'n glir sut mae theori yn cysylltu â'u gweithgareddau dyddiol. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn hyderus wrth ateb cwestiynau am eu gwaith ac wrth gyfathrebu â'u cyflogwyr, aseswyr a'u cymheiriaid. Maent yn defnyddio terminoleg dechnegol yn gymwys ac yn rhoi enghreifftiau clir o'r gwaith maent wedi ymgymryd ag ef. Er enghraifft, mae dysgwyr gwaith warws a storio yn esbonio perthnasedd ymwybyddiaeth o beryglon yn hyderus; maent yn pwysleisio pwysigrwydd defnyddio offer amddiffynnol personol a gwerth cadw cofnodion. Mae prentisiaid gyrru trenau yn myfyrio ar eu gwybodaeth a'u profiadau i helpu i ddatblygu eu dealltwriaeth o arferion safonol yn ymwneud â gweithredu trenau.

Mae llawer o ddysgwyr yn rhyngweithio'n hyderus â'u haseswyr a dysgwyr eraill fel rhan o adolygiadau cynnydd un-i-un a sesiynau theori grŵp i ffwrdd o'r gwaith. Mewn ychydig o achosion, mae dysgwyr yn dwyn perchenogaeth dros eu dysgu ac yn trafod targedau realistig ar gyfer cwblhau asesiadau. Yn yr achosion hyn, mae dysgwyr yn nodi'n rhagweithiol yr asesiadau y mae angen iddynt eu cwblhau ac yn nodi ffynonellau tystiolaeth posibl yn ddefnyddiol sy'n gysylltiedig â'u rolau gwaith.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dangos arfer gref yn y gweithle. Mae dysgwyr yn gweithio'n effeithiol â'u cyflogwyr, aseswyr a thiwtoriaid i ddatblygu a gwella ystod eang o fedrau ymarferol. Yn y gweithle, maent yn deall y prosesau y mae'n rhaid iddynt eu dilyn wrth gwblhau tasgau a phwysigrwydd cwblhau gwaith i'r safon briodol mewn modd amserol. Er enghraifft, mae dysgwyr gosod trydan yn ailwifro tŷ yn gymwys yn unol â'r safon ofynnol yn yr amser a roddir. Wrth gwblhau tasgau ac asesiadau ymarferol, mae llawer o ddysgwyr yn eu cwblhau o leiaf i safon briodol ac mae ychydig ohonynt yn dangos lefel uwch o gymhwysedd. Mae dysgwyr peirianneg aerofod yn archwilio, profi ac atgyweirio harneisiau gwifrau ar gyfer peiriannau awyrennau yn hyderus. Mae dysgwyr sy'n gweithio i atgyweirio ac ailorffen cyrff cerbydau yn asesu ac yn atgyweirio difrod i gerbydau'n ofalus, cyn eu paratoi i ailorffen eu paentio. O ganlyniad i ddatblygu'r medrau ymarferol hyn, daw dysgwyr yn aelodau staff gwerthfawr sy'n cyfrannu'n llawn at waith eu cyflogwr.

Mae llawer o ddysgwyr yn dangos medrau llythrennedd digidol cadarn wrth ddefnyddio ystod eang o gymwysiadau meddalwedd. Er enghraifft, mae dysgwyr mewn gweithgynhyrchu peirianneg yn dangos medrau llythrennedd digidol da wrth ymchwilio'n gydweithredol i ddeunyddiau gwahanol a'u priodweddau. Mae mwyafrif y dysgwyr yn dangos medrau ysgrifennu cadarn ac yn llunio gwaith ysgrifenedig o safon briodol, o leiaf, ac mae ychydig ohonynt yn llunio gwaith o ansawdd uwch. Yn yr achosion gorau, mae dysgwyr yn strwythuro eu gwaith yn dda ac yn rhoi sylw da i gyflwyniad, sillafu a gramadeg. Fodd bynnag, gan nad oes gan fwyafrif y dysgwyr dargedau clir i wella eu medrau llythrennedd a rhifedd y tu hwnt i'w cymwysterau medrau sylfaenol, nid oes ganddynt ddealltwriaeth glir o'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella. Ar ddechrau eu prentisiaethau, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymgymryd â'r cwrs Prentis-Iaith. Fodd bynnag, ychydig iawn o ddysgwyr sy'n datblygu eu medrau Cymraeg y tu hwnt i hyn fel rhan o'u hyfforddiant neu'n ymgymryd ag unrhyw waith ysgrifenedig yn Gymraeg.

Yn dilyn effeithiau negyddol pandemig COVID-19 ar addysg a hyfforddiant, mae cyfraddau llwyddo dysgwyr yn Academi Sgiliau Cymru yn gwella ar draws llawer o feysydd dysgu. Iechyd a gofal cymdeithasol yw'r maes dysgu sydd â'r heriau mwyaf

o hyd. Mae cyfraddau llwyddo yn y maes dysgu hwn yn gwella, er bod nifer y rhai sy’n cwblhau’n hwyr yn uchel o hyd, gan adlewyrchu’r heriau y mae’r sector hwn yn eu hwynebu’n genedlaethol ar hyn o bryd. At ei gilydd, mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd sydd o leiaf yn briodol tuag at gwblhau eu fframweithiau prentisiaeth, a gwna ychydig ohonynt gynnydd cryfach.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Ym mron pob achos, mae’r berthynas rhwng dysgwyr, aseswyr a chyflogwyr yn gadarnhaol dros ben ac mae bron pob un o’r dysgwyr yn gwybod sut i fanteisio ar gymorth yn eu hamgylcheddau dysgu a’u gweithleoedd. Mae dysgwyr yn teimlo’n gyfforddus yn codi materion personol os ydynt yn effeithio ar eu hymgysylltiad neu eu perfformiad mewn unrhyw ffordd. Mae dysgwyr yn amlwg yn croesawu diddordeb eu haseswyr yn eu lles a’u cynnydd yn y gweithle. Maent yn rhannu eu teimladau â pharodrwydd ac yn esbonio eu heriau cyfredol. Mae bron pob un o’r dysgwyr yn rhannu eu bod yn teimlo’n ddiogel yn eu gweithleoedd a’u hamgylcheddau dysgu. Fodd bynnag, dim ond ychydig o ddysgwyr sy’n gallu esbonio peryglon eithafiaeth a radicaleiddio neu drafod y rhain yng nghyd-destun eu rolau gwaith neu eu gweithleoedd ehangach.

Mae llawer o ddysgwyr yn gwerthfawrogi gallu cysylltu â phrentisiaid eraill i rannu eu profiadau a chael cefnogaeth a chwmnïaeth eu cymheiriaid. Maent yn gwerthfawrogi cyfleoedd i ddysgu oddi wrth ei gilydd, sy’n helpu i gefnogi eu cynnydd a hefyd lleihau unrhyw straen yn gysylltiedig â’r gwaith y gallant fod yn ei deimlo. Maent yn parchu ei gilydd ac yn dangos hyn trwy wrando a holi’n weithredol. Mewn sesiwn lefel 3 plymio a gwresogi, mae grŵp o ddysgwyr a oedd yn swil ac yn amharod ar y cychwyn, yn trafod eu gwaith yn barchus, gan ganiatáu ar gyfer cymryd tro, gwahodd barnau a chynnig anogaeth a sicrwydd. Mae grŵp o brentisiaid nyrsio deintyddol lefel 3 yn trafod dulliau gwaredu gwastraff mewn deintyddfeydd gwahanol. Mae hyn yn sbarduno trafodaeth fywiog ac mae dysgwyr yn dangos diddordeb dilys, yn cwestiynu dulliau ac yn trafod arfer orau.

Mae dysgwyr yn gwerthfawrogi’r ymagweddau amrywiol a hyblyg tuag at ddysgu sy’n bodloni’r beichiau eraill a roddir arnynt. Mae’r ymagweddau hyn yn cynnwys gallu manteisio ar ddysgu o bell os oes heriau o ran ymrwymiadau’r gweithle neu heriau daearyddol. Mae dysgwyr hefyd yn gwerthfawrogi’r gallu i drafod terfynau amser a llwythi gwaith i fodloni pwysau penodol, yn ogystal â gofyn am amseroedd sesiynau gwahanol i gyd-fynd ag ymrwymiadau gwaith a theulu. Er enghraifft, cydweithiodd dysgwr mewn lleoliad gofal plant â’i haseswr i aildrefnu ei hyfforddiant i’w galluogi i ymestyn ei chyfrifoldebau gwaith i gynnwys rôl y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) ar gyfer ei chyflogwr.

Mae gan bron pob un o’r dysgwyr ddisgwyliadau realistig o ran y beichiau y bydd ymgymryd â’u fframweithiau prentisiaeth yn eu rhoi arnynt ar adegau gwahanol. Mae hyn o ganlyniad i’r cyngor ac arweiniad defnyddiol a gânt cyn dechrau eu rhaglenni prentisiaeth a’r berthynas waith gynhyrchiol rhwng dysgwyr ac aseswyr. Mae dysgwyr yn elwa ar gyngor ac arweiniad parhaus yn ymwneud â chyfleoedd dilyniant. Er enghraifft, mae prentis arweinyddiaeth a rheolaeth yn bwriadu symud yn uniongyrchol o fframwaith lefel tri i lefel pump, gan fod ei haseswr wedi esbonio pam y mae’n hyderus y byddai’n gallu cyflawni hynny.

Mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymwybodol o’r ystod o adnoddau lles a ehangwyd yn ddiweddar sydd ar gael ar blatfformau ar-lein y darparwr, yn ogystal â’r gwasanaeth iechyd meddwl a lles digidol sydd ar gael iddynt yn allanol. Fodd bynnag, dim ond ychydig iawn o ddysgwyr sydd wedi manteisio ar y rhain ac elwa arnynt. Mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cofio ymgysylltu â’r offeryn proffilio ADY a lles yn ystod eu cyfnod ymsefydlu. Arweiniodd defnydd un dysgwr o’r offeryn proffilio yn ddefnyddiol at nodi ADY nad oedd wedi cael diagnosis ohono gynt. Fodd bynnag, at ei gilydd, ychydig iawn o ddysgwyr sy’n ymwybodol o unrhyw gymorth neu addasiadau'n cael eu trefnu ar eu cyfer ar ôl defnyddio’r offerynnau hyn.

Mae ychydig o ddysgwyr yn teimlo’n rhwystredig am y system portffolio ar-lein. Maent yn esbonio eu bod wedi cael trafferthion wrth lywio’r platfform, anghysondebau o ran cofnodi gwaith a gyflwynwyd ac anawsterau o ran manteisio ar adborth aseswyr. Rhannodd y rhai yr effeithiwyd arnynt y gall hyn achosi straen ond, yn y rhan fwyaf o achosion, maent yn cytuno ar ddatrysiadau addas â’u haseswyr yn gyflym.

Mae llawer o ddysgwyr yn siarad yn gadarnhaol am eu hymdeimlad o gyflawniad. Er enghraifft, mae dysgwr lletygarwch yn rhannu â balchder ei bod wedi cyflawni ei chymhwyster Sgiliau Hanfodol lefel 2 mewn rhifedd a llythrennedd, er iddi adael yr ysgol heb unrhyw gymwysterau ffurfiol. Yn yr un modd, mae prentis saernïaeth yn rhannu ei falchder o fod wedi cymryd rhan mewn cystadleuaeth medrau ar ôl i’w aseswr gydnabod ei fedrau technegol cryf a’i gynnydd sylweddol.

Mae dysgwyr yn siarad yn gadarnhaol am eu hyder cynyddol, caffael gwybodaeth a datblygu medrau ac mae rhai ohonynt yn rhannu bod eu cyflogwyr hefyd yn cydnabod y cynnydd hwn. Yn ystod eu hyfforddiant, mae llawer o ddysgwyr wedi datblygu’r hyder i gwestiynu a herio arferion y gweithle’n barchus. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys nyrsys deintyddol yn cwestiynu dewis o weipiau llawfeddygol. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif y prentisiaid yn ymwybodol o sut mae’r bartneriaeth ei hun yn defnyddio eu safbwyntiau i helpu i wella ei heffeithiolrwydd.

Mae llawer o ddysgwyr yn frwdfrydig ac yn cyfrannu’n weithredol at sesiynau. Maent yn manteisio ar gyfleoedd i ddefnyddio eu profiadau yn y gweithle i rannu eu gwybodaeth a gofyn cwestiynau. Er enghraifft, mae prentis TG lefel 3 yn rhannu ei wybodaeth ac arbenigedd cynhwysfawr mewn datrys problemau â systemau. Yn yr un modd, mae prentis peirianneg aerofod lefel 3 yn esbonio’n hyderus sut mae’r rheolyddion mewn sedd beilot awyren yn cysylltu â mecaneg yr injan. Fodd bynnag, mewn ychydig o sesiynau, mae cyfraniadau dysgwyr yn gyfyngedig. Lle mae hyn yn digwydd, mae naill ai oherwydd nad ydynt yn ymgysylltu o wirfodd er iddynt gael eu hannog, neu nid ydynt yn cael cyfleoedd i wneud hynny gan eu haseswyr neu diwtoriaid.

### Addysgu, hyfforddi, asesu a phrofiadau dysgu

Mae’r bartneriaeth yn datblygu a diweddaru ei darpariaeth yn dda i fodloni anghenion cyflogwyr lleol a rhanbarthol ac i adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol. Mae ganddi ymagwedd gydweithredol tuag at gynllunio darpariaeth, sy’n helpu i sicrhau y caiff darpariaeth ei chydlynu’n effeithiol ac yn osgoi unrhyw ddyblygu neu gystadleuaeth ddiangen.

Mae darparwyr y bartneriaeth yn ymateb yn dda i unrhyw newidiadau yng ngalw ac anghenion medrau'r farchnad lafur. Er enghraifft, maent wedi nodi'r angen i ddatblygu darpariaeth ar gyfer gyrwyr trenau a cherbydau nwyddau mawr (LGV), yn ogystal â darpariaeth ar gyfer cynnal a chadw traciau rheilffordd. Mae darparwyr hefyd yn cydweddu ac addasu dulliau cyflwyno i fodloni anghenion penodol cyflogwyr a dysgwyr. Er enghraifft, mae darparwyr yn bodloni anghenion cyfnewidiol cyflogwyr cenedlaethol a sectorau arbenigol, fel nyrsio deintyddol ac asiantaethau'r llywodraeth, trwy gyflwyno ychydig o raglenni ar-lein. Fodd bynnag, nid yw cynllunio darparwyr i roi cyfleoedd i brentisiaid ymgymryd â gweithgareddau dysgu ac asesu trwy gyfrwng y Gymraeg wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

Mae partneriaid yn ymgysylltu'n dda â chyflogwyr i sicrhau ymglymiad cyfunol priodol wrth lunio darpariaeth a chyflwyno hyfforddiant yn y gwaith. Maent hefyd yn cydweithio'n effeithiol i fonitro cynnydd dysgwyr tuag at gyflawni eu cymwysterau a'u fframweithiau prentisiaeth. Yn yr achosion gorau, mae cyflogwyr yn cyfrannu'n weithredol at gynllunio dysgu ac asesu. Er enghraifft, cynlluniwyd asesiad diweddbwynt ar gyfer prentis adeiladu lefel 3 â'r cyflogwr i gyd-fynd ag adeiladu ystafell hyfforddi ar safle'r busnes.

Mae tiwtoriaid ac aseswyr wedi datblygu adnoddau addysgu a dysgu defnyddiol i gynorthwyo i gyflwyno fframweithiau prentisiaeth. Yn yr achosion gorau, maent yn mapio meini prawf asesu cymwysterau yn fedrus i rolau gwaith ac yn defnyddio hyn i nodi a chynllunio cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio tystiolaeth yn seiliedig ar waith sy'n digwydd yn naturiol fel rhan o'u gweithgareddau gwaith. Mewn ychydig o achosion, nid yw adnoddau a gweithgareddau dysgu'n ennyn diddordeb dysgwyr yn llawn nac yn eu herio i gyflawni cystal ag y gallant.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid ac aseswyr yn frwdfrydig, yn amlwg yn mwynhau eu rôl ac yn brofiadol iawn o ran arbenigeddau galwedigaethol. Gwnânt ddefnydd da o'u profiad yn y sector diwydiant i ddatblygu a chynorthwyo dysgwyr â'u dysgu, yn ogystal ag yn eu rolau gwaith. Mae bron pob un o'r tiwtoriaid a'r aseswyr yn datblygu cysylltiad cryf a pherthynas gadarnhaol â'u dysgwyr ac yn eu hadnabod yn dda. Mewn ychydig iawn o achosion, nid yw cysylltiadau rhwng tiwtoriaid mewn colegau ac aseswyr yn y gwaith yn ddigon cryf nac effeithiol. Mae hyn yn arwain at rwystredigaeth ymhlith y nifer fach o ddysgwyr a chyflogwyr yr effeithir arnynt.

Mae gan y rhan fwyaf o aseswyr a thiwtoriaid ddisgwyliadau uchel o ddysgwyr ac yn rhoi anogaeth a chanmoliaeth briodol iddynt. Mae aseswyr yn cynnal adolygiadau cynnydd gwerthfawr rheolaidd â dysgwyr unigol. Maent yn cynnwys llawer ohonynt yn llwyddiannus mewn pennu targedau a therfynau amser addas ar y cyd.

Mae partneriaid, isgontractwyr a chyflogwyr Academi Sgiliau Cymru yn cydweithio'n dda â'i gilydd i sicrhau ethos cynhyrchiol o ddysgu ac yn y gweithle, sy'n annog uchelgeisiau a dyheadau gyrfa dysgwyr. Mae cymorth parhaus darparwyr a chyflogwyr i ddysgwyr trwy gydol eu rhaglenni hyfforddiant yn helpu i'w meithrin yn llwyddiannus. Mae llawer o ddysgwyr yn elwa ar gymorth gwerthfawr gan eu mentoriaid yn y gweithle neu gydlynwyr eu prentisiaethau.

At ei gilydd, mae tiwtoriaid ac aseswyr yn cynllunio'u sesiynau'n effeithiol i adlewyrchu gofynion cymwysterau a thargedau dysgu. Fodd bynnag, caiff lleiafrif o sesiynau eu harwain yn ormodol gan aseswyr ac mae cyfnodau estynedig o fewnbwn

didactig. Mae hyn yn golygu bod ychydig o ddysgwyr yn oddefol am gyfnodau hir heb ddigon o gyfleoedd iddynt gyfrannu mewn ffordd sy'n atgyfnerthu neu'n ymestyn eu dysgu. Mae'r broblem hon yn fwyaf cyffredin yn ystod sesiynau ar-lein o bell sy'n cynnwys grwpiau o ddysgwyr.

Ar y cyfan, mae aseswyr yn addasu eu hymagweddau'n effeithiol i gefnogi anghenion unigol dysgwyr. Er enghraifft, wrth weithio â phrentis gwaith warws a storio lefel dau sy'n siarad Saesneg fel ail iaith, mae aseswr yn defnyddio enghreifftiau o derminoleg allweddol â chyd-destun i gynorthwyo'r dysgwr i ddeall. Mae aseswr arall yn aralleirio cwestiynau mewn modd sensitif a phriodol i helpu prentis lefel dau ag anghenion dysgu ychwanegol i ddeall yr hyn sydd ei angen.

At ei gilydd, mae technegau holi tiwtoriaid ac aseswyr yn effeithiol ac mae llawer ohonynt yn herio dysgwyr yn briodol i roi mwy o fanylion, esbonio eu hymatebion ac ystyried sefyllfaoedd amgen. Mae ychydig o aseswyr yn defnyddio holi'n arbennig o fedrus i annog a datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr.

Mae llawer o aseswyr yn rhoi adborth defnyddiol i ddysgwyr ar waith ysgrifenedig ac ymarferol. Mewn ychydig o achosion, nid yw aseswyr yn rhoi adborth diagnostig ystyrlon yn rheolaidd i helpu dysgwyr i ddeall beth mae angen iddynt ei wneud i wella. Yn yr achosion hyn, mae adborth wedi'i gyfyngu i sylwadau arwynebol a cheisiadau syml am ragor o fanylion.

Mae'r darparwr yn cynorthwyo lleiafrif o ddysgwyr yn llwyddiannus i elwa ar hyfforddiant ychwanegol gwerthfawr ac ennill cymwysterau sydd y tu allan i ofynion eu fframweithiau prentisiaeth. Er enghraifft, mae dysgwr mewn lleoliad gofal iechyd yn ymgymryd â rhaglen codi a chario 'hyfforddi'r hyfforddwr'. Mae dysgwyr eraill hefyd wedi ymgysylltu â chyfleoedd dysgu ychwanegol, gan gynnwys hyfforddiant ymwybyddiaeth o anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD) a hyfforddiant cymorth cyntaf. Mae'r bartneriaeth yn cynorthwyo dysgwyr mwy abl a thalentog i wella eu medrau galwedigaethol ymhellach trwy eu hannog i gymryd rhan mewn cystadlaethau medrau.

### Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae Academi Sgiliau Cymru yn bartneriaeth sefydledig sy'n cynnig gofal, cymorth ac arweiniad da iawn i'w dysgwyr. Mae'n defnyddio arbenigedd ei phartneriaid ac is-gontracwyr yn llwyddiannus i fodloni anghenion ei dysgwyr. Mae hyn yn amrywio o roi cyngor ac arweiniad cychwynnol a pharhaus gwerthfawr i gyflogwyr a dysgwyr, i fathau amrywiol o gymorth yn ymwneud â rhaglenni.

Er mwyn ei chynorthwyo i gynnig gofal a chymorth gwerthfawr, mae'r bartneriaeth yn defnyddio gwybodaeth a gwasanaethau llawer o asiantaethau allanol yn effeithiol, er enghraifft gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc (CAMHS), timau iechyd meddwl cymunedol (CMHTau), Anabledd Cymru a Gyrfa Cymru. Mae'r bartneriaeth hefyd wedi rhoi rhaglen deilwredig fuddiol o ddatblygiad proffesiynol ar waith i helpu aseswyr i ddeall anghenion eu dysgwyr a sut i'w cefnogi er mwyn iddynt gyflawni hyd eithaf eu gallu.

Eleni, mae'r bartneriaeth wedi cyfuno tri o'i grwpiau ymarferwyr sy'n rhannu themâu cyffredin i ffurfio'r Grŵp Ymarferwyr Iechyd, Diogelwch a Lles. Caiff y grŵp hwn ei

gadeirio ar y cyd gan bartneriaid ac mae'n gweithio'n unol ag agenda safonol i ddatblygu cydraddoldeb ac amrywiaeth, iechyd a diogelwch, yn ogystal â diogelu ac atal. Mae cynrychiolaeth ar draws y bartneriaeth, ynghyd â chylch gwaith eang y grŵp, yn hwyluso'r gwaith gwerthfawr o groesffrwythloni syniadau wrth i'r grŵp drafod a chynllunio mentrau'r bartneriaeth, gan gynnwys datblygiad proffesiynol perthnasol. Yn gynharach eleni, elwodd y partneriaid a'r isgontractwyr ar hyfforddiant ar unigolion diogelu dynodedig. Enwebodd pob partner ac is-gontractwr gynrychiolwyr i fod yn bresennol, ac aethant ati i ledaenu agweddau perthnasol ar yr hyn roeddent wedi'i ddysgu trwy eu sefydliadau eu hunain.

Yn dilyn treial llwyddiannus o raglen feddalwedd sgrinio niwroamrywiaeth, mae'r Grŵp Ymarferwyr Iechyd, Diogelwch a Lles wedi ehangu'r defnydd o'r rhaglen hon yn ddiweddar i brentisiaid sylfaen a lefel 3 ar draws y bartneriaeth. Mae'r system hon yn helpu dysgwyr i nodi a chyfleu rhwystrau posibl rhag dysgu. Mae'n cyfeirio dysgwyr at adnoddau perthnasol defnyddiol ac yn rhoi gwybod i aseswyr am anghenion unigol eu dysgwyr. Mae hefyd yn rhoi strategaethau defnyddiol i aseswyr i gynorthwyo eu dysgwyr.

Caiff canlyniadau'r offeryn sgrinio eu hanfon ymlaen at Gydlynydd ADY y bartneriaeth, a benodwyd yn ddiweddar, sy'n defnyddio'r wybodaeth hon, ynghyd â gwybodaeth gan ysgolion lleol, i lunio cynlluniau datblygu unigol. Yna, caiff y cynlluniau hyn eu rhannu â thiwtoriaid ac aseswyr, a chaiff cofnodion cynnydd eu monitro'n rheolaidd gan y Cydlynydd ADY. Mae partneriaid ac isgontractwyr wedi croesawu'r dull safonedig hwn ar draws y bartneriaeth ac mae dysgwyr unigol wedi dechrau elwa ar y cymorth gwerthfawr sy'n deillio ohono. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i'r darparwr fesul effaith lawn y trefniadau hyn.

Mae'r bartneriaeth yn ymfalchïo yn y gofal, cymorth ac arweiniad y mae'n eu cynnig i'w prentisiaid, gan eu helpu i ddod yn ddysgwyr a gweithwyr annibynnol. Mae'n gweithio tuag at ymagwedd cymorth dysgu cyffredinol, lle mae pob aelod staff a chyflogwr yn sicrhau bod cymorth cynhwysol ar gael i bob dysgwr. Mae hyn yn cynnwys rhoi cyngor ymarferol i gyflogwyr ar sut i helpu eu prentisiaid. Lle y bo'n briodol, mae'r ymagwedd hon hefyd yn annog cyflogwyr i alluogi eu prentisiaid i ymgysylltu'n uniongyrchol â chymorth lles a dysgu sy'n cael ei gynnig gan y partneriaid. Er enghraifft, yn ddiweddar, mae carfan o ddysgwyr peirianneg wedi cael amser ychwanegol gan eu cyflogwr i fynd i'r coleg ar gyfer sesiynau datblygu medrau ychwanegol.

Un o fanteision gwerthfawr y bartneriaeth yw gallu'r holl bartneriaid ac is-gontractwyr i fanteisio ar wasanaethau cyngor ac arweiniad tîm diogelu'r darparwr arweiniol. Mae hyn yn arbennig o ddefnyddiol i ddarparwyr llai yn y bartneriaeth sy'n gwerthfawrogi'r gallu i fanteisio ar ymarferwyr ymatebol, cymwys a all eu helpu ag unrhyw broblemau maent yn dod ar eu traws.

Mae'r darparwr arweiniol yn sicrhau bod dysgwyr yn cael hyfforddiant ar ddiogelu ac Atal (Prevent) yn ystod eu cyfnod ymsefydlu. Fodd bynnag, mae anghysondebau yn nealltwriaeth dysgwyr o sut i gadw eu hunain yn ddiogel rhag radicaleiddio ac eithafiaeth ac nid yw tiwtoriaid ac aseswyr yn gwneud defnydd digonol o gyfleoedd priodol i atgyfnerthu'r agweddau hyn.

Mae gan y darparwr arweiniol bolisïau a gweithdrefnau diogelu priodol ar waith, ynghyd â dulliau adrodd clir. Mae trefniadau ar gyfer diogelu dysgwyr yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth**

Ac yntau'n ddeiliad contract prentisiaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Academi Sgiliau Cymru, bu Grŵp Colegau NPTC yn ofalus i gadw manteision natur gyfunol y bartneriaeth a sefydlwyd yn 2009. Mae pob un o'r sefydliadau partner yn chwarae rôl bwysig yn arweinyddiaeth strategol a goruchwyliaeth weithredol y bartneriaeth. Gwnânt hyn drwy fod â chyfrifoldeb cyfunol am benderfyniadau ar y lefelau uchaf. Gyda'i gilydd, maent wedi sefydlu ethos o ddisgwyliadau uchel sy'n treiddio ar draws y rhwydwaith o bartneriaid ac isgontractwyr.

Mae gan uwch arweinwyr ffocws craff ar ragfynegi datblygiadau'r farchnad lafur. Hefyd, mae'r bartneriaeth yn ymgysylltu'n rhagweithiol â phrosiectau rhanbarthol yn gynnar yn y camau cynllunio. Mae'n nodi'n effeithiol anghenion datblygu'r gweithlu ac yn mynd i'r afael ag unrhyw fylchau o ran gwybodaeth a medrau mewn modd amserol. Er enghraifft, wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru, mae'r bartneriaeth yn gweithio i nodi anghenion medrau'r sector rheilffyrdd i gyd-fynd â datblygu'r Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd gwerth £400m yng Nghastell-nedd. Caiff yr ymatebolrwydd hwn ei gyflawni trwy berthnasoedd cynhyrchol â Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, prosiectau Bargeinion Dinesig a Thwf, yn ogystal â sefydliadau mawr yn y sector cyhoeddus a mentrau masnachol. Mae hyn yn helpu i gefnogi sefydlu datblygiadau menter ac ehangu busnesau presennol sydd o fudd i'r rhanbarth. Er enghraifft, yn 2016, cynorthwyodd Academi Sgiliau Cymru Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe i sefydlu academi prentisiaethau gyntaf y GIG yng Nghymru, sydd bellach wedi hyfforddi dros 500 o brentisiaid.

Yn yr un modd, mae Academi Sgiliau Cymru yn ofalus i gadw ffocws ar anghenion dros fil o fentrau micro a bach sy'n dibynnu ar gymorth cyson y bartneriaeth i recriwtio a hyfforddi prentisiaid yn llwyddiannus. Mae hyn yn helpu i liniaru'r pwysau sylweddol ar y gweithlu y mae'r darparwr wedi'i nodi ar draws sawl sector allweddol, fel gofal cymdeithasol, gofal plant, adeiladu, peirianneg a logisteg. Gyda chefnogaeth y bartneriaeth, mae cyn-brentisiaid wedi sefydlu eu hunain fel unig fasnachwyr ac mae rhai ohonynt, er enghraifft yn y fasnach gosod trydanol, wedi datblygu eu busnesau llwyddiannus yn gyflym i gyflogi dwsinau o bobl leol.

Mae natur gydweithredol a strwythur y bartneriaeth, ynghyd ag ystod eang y ddarpariaeth sydd ar gael, yn galluogi darparwyr i gefnogi dilyniant llwyddiannus dysgwyr i lefelau uwch o ddysgu. Mae cynllunio dilyniant rhwng darparwyr yn galluogi dysgwyr i symud yn ddi-dor rhwng cwblhau eu fframweithiau ag un o ddarparwyr y bartneriaeth, i hyfforddiant lefel uwch â darparwr arall, mwy arbenigol.

Ymatebodd Academi Sgiliau Cymru yn dda i'r heriau a'r aflonyddu a wynebwyd gan ddysgwyr a chyflogwyr oherwydd pandemig COVID-19. Er enghraifft, er mwyn ymateb i'r pwysau cynyddol ar gyflogwyr yn y Sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ymgymerodd y bartneriaeth â'r gwaith o gyflwyno Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan (AWIF), sef cyfrifoldeb sy'n cael ei roi ar y cyflogwr, fel arfer. Lleihaodd hyn y beichiau ar ddarparwyr gofal, gan eu galluogi i roi eu hamser i ddefnyddwyr gwasanaeth a chyflwyno gweithwyr newydd i'r hyfforddiant sydd ar gael iddynt.

Mae polisïau a gweithdrefnau'r bartneriaeth yn glir, gan sicrhau bod cyfrifoldebau partneriaid ac isgontractwyr yn cael eu deall yn dda. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod ymdrechion y partneriaid a'r isgontractwyr yn cyd-fynd â'i gilydd. Mae gan y grwpiau arweinyddiaeth gweithredol a gweithrediadol ddarlun cydlynol o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella ar draws y sefydliadau gwahanol. Mae tri o'r partneriaid yn cydweithio'n agos ag un neu fwy o'r is-gontractwyr ar ran y bartneriaeth. Mae hyn yn darparu llinellau atebolrwydd clir ac yn manteisio i'r eithaf ar berthnasoedd gwaith sefydledig rhwng partneriaid penodol a'u hisgontractwyr cysylltiedig.

Gan ddefnyddio ei strwythur adrodd clir, mae'r bartneriaeth yn adolygu ei pherfformiad yn rheolaidd yn gyfannol ac ar lefel darparwyr unigol. Mae cyfarfodydd uwch arweinwyr, fel y Grŵp Rheoli Gweithredol, yn dod â darparwyr at ei gilydd yn rheolaidd i adolygu gwybodaeth allweddol, fel data ar gynnydd a deilliannau dysgwyr. Mae trefniadau sicrhau ansawdd ar draws y bartneriaeth yn fanwl ac wedi'u strwythuro i alluogi lefelau adrodd gwahanol. Mae'r trefniadau hyn yn cynnwys dulliau safonol o ddadansoddi barn rhanddeiliaid a dadansoddi gwerthusiadau partneriaid o addysgu a dysgu. Mae'r grŵp ymarferwyr ymgysylltu cyfunol â rhanddeiliaid yn effeithiol o ran casglu safbwyntiau dysgwyr i lywio gwaith y bartneriaeth. Mae hyn yn cynnwys arolwg gwerthfawr o ddewisiadau pob dysgwyr o ran dulliau dysgu ar-lein, cyfunol neu wyneb-yn-wyneb.

Mae prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant y bartneriaeth yn cynnwys myfyrio gonest gan bartneriaid ac is-gontractwyr ar yr hyn sy'n gweithio'n dda a meysydd allweddol i'w gwella. Mae'r gwerthusiad cyffredinol yn ystyried profiadau dysgwyr yn briodol, yn ogystal ag ystod o fesurau perfformiad addas. Caiff cynnydd yn erbyn y cynllun gwelliant parhaus a'r cynllun gweithredol ei fonitro bob chwarter a'i adolygu gan y Grŵp Rheoli Gweithredol. Fodd bynnag, nid yw'r bartneriaeth yn nodi ychydig o feysydd i'w datblygu yn glir ac nid yw ychydig o dargedau gwella wedi'u diffinio'n ddigon da.

Mae'r bartneriaeth yn cymryd camau cadarn i fynd i'r afael â thanberfformio a nodwyd. Mewn achosion lle nad yw mesurau gwella'n ddigon effeithiol, mae'r bartneriaeth yn atal darpariaeth tanberfformio ar sail argymhellion y Grŵp Rheoli Gweithredol. Yn yr ychydig iawn o achosion lle bu hyn yn angenrheidiol, mae'r bartneriaeth wedi gallu mwyhau darpariaeth debyg sy'n cael ei chynnig gan bartneriaid neu is-gontractwyr eraill i sicrhau y caiff anghenion hyfforddiant dysgwyr a chyflogwyr eu bodloni'n ddi-dor.

Mae Academi Sgiliau Cymru yn defnyddio ei gwybodaeth am y cryfderau a'r meysydd i'w gwella ar draws y bartneriaeth i gynllunio gweithgareddau dysgu proffesiynol i aseswyr a thiwtoriaid ar draws saith agwedd allweddol. Mae'r rhain yn cynnwys addysgu, dysgu ac asesu; cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant; yn ogystal â diogelu, iechyd a diogelwch. Mae ymgysylltiad cryf, cyson â'r gweithgareddau datblygu hyn wedi'i gyfoethogi ymhellach trwy gyflwyno darpariaeth ddigidol. Mae hyn yn galluogi ymarferwyr ar draws y sbectrwm eang o sectorau, lleoliadau daearyddol, partneriaid ac is-gontractwyr i drafod yr hyn sy'n gweithio'n dda a dysgu'n effeithiol oddi wrth ei gilydd.

Mae arweinwyr wedi ymgynnull a chynnal gweithlu o aseswyr a thiwtoriaid sydd â phrofiad gwerthfawr sy'n benodol i'r sector a'r diwydiant. Maent yn helpu eu prentisiaid yn llwyddiannus i ddatblygu'n ymarferwyr gwybodus a medrus. Mae'r

aseswyr hyn yn gofalu am eu dysgwyr ac yn eu cynorthwyo i oresgyn unrhyw heriau personol a heriau maent yn eu hwynebu yn y gweithle. O ganlyniad, mae prentisiaid yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu a'u gyrfaoedd.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i ddysgwyr a'r holiadur i gyflogwyr, ac yn ystyried barn athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cyfarfod â'r pennaeth / prif weithredwr, llywodraethwyr (lle bo'n briodol), uwch reolwyr a rheolwyr canol ac athrawon unigol, hyfforddwyr ac aseswyr i werthuso effaith gwaith y darparwr
- yn cyfarfod â dysgwyr i drafod eu gwaith, gwrando arnynt a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu darparwr
- yn ymweld â sampl eang o sesiynau, gan gynnwys sesiynau i ffwrdd o'r gwaith, sesiynau theori a sesiynau hyfforddi ymarferol
- yn ymweld ag ystod eang o ddysgwyr yn eu gweithleoedd i arsylwi eu medrau gweithle, arsylwi asesiadau, adolygu eu gwaith theori a chyfarfod â'u cyflogwyr
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r darparwr
- yn ystyried cynllun gwella ansawdd y darparwr ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r darparwr wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth eang o ddogfennau'r darparwr, gan gynnwys gwybodaeth am asesu, olrhain a chynnydd dysgwyr, cofnodion cyfarfodydd rheolwyr a staff, cyfarfodydd ag is-gontractwyr a phartneriaid allweddol a chyfarfodydd â chyflogwyr, gwybodaeth am les dysgwyr, gan gynnwys diogelu dysgwyr, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, bu Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y bartneriaeth ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 29/08/2023